Ysgol I.D. Hooson
Heol Caradog
Rhosllannerchrugog
LL14 2DX
Ffôn: 01978 832950
Ffacs: 01978 832955
e-bost: mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk

YSGOL I.D. HOOSON

17.3.20

Annwyl Rieni/ Gofalwyr,
Dear Parent/Carer,

A fyddech cystal y chymryd ychydig o funudau i ddarllen y wybodaeth ganlynol. A fyddech hefyd yn rhannu'r wybodaeth berthnasol gyda unrhyw aelodau eraill o'r teulu a all fod a chyfrifoldeb i ddod a , neu gasglu eich plentyn o'r ysgol. Diolch
Could I ask all parents/carers to spend a few minutes to read the following information. Can I also ask you to share any relevant information with other relatives who may have responsibility for bringing or collecting your child to/from school. Thank you.

Nosweithiau Rhieni / Parent's Evenings*- Yn anffodus o ganlyniad i'r sefyllfa bresennol yn ymwneud a'r 'coronafirws', rydym wedi cymryd y penderfyniad i ohirio'r nosweithiau rheini a drefnwyd ar gyfer wythnos nesaf, sef yr wythnos sydd yn cychwyn 23ain o Fawrth. Rydym yn mawr obeithio y byddwn mewn sefyllfa i fedru ail drefnu'r cyfle hwn i chi gyfarfod cynnydd eich plentyn gyda'r athro/awes ddosbarth yn hwyrach yn y flwyddyn. Ymddiheuriadau am yr anghyfleustra.*
Unfortunately due to the current situation regarding the 'coronavirus', we have made the decision to cancel the parent evenings which had been arranged for the week beginning 23rd March. We hope to be in a situation to be able to re-arrange the opportunity for you to discuss your child's progress with the classteacher, at a later date in the year. Apologies for the inconvenience.

Eisteddfod yr Urdd Eisteddfod *– Mae'n debyg fod y mwyafrif ohonoch yn barod wedi clywed y newyddion am benderfyniad yr Urdd i ohirio'r Eisteddfod Genedlaethol. Y bwriad yw cynnal yr eisteddfod yn Ninbych yn 2021. Mae'n siomedig iawn i ni fel ysgol, i'r plant ac i'r staff sydd yn barod wedi rhoi wythnosau ac oriau o waith i mewn i'r paratodau ers mis Medi. Mae hyn yn cynnwys cystadlaethau llwyfan, a chystadlaethau celf a chrefft. Byddem yn awgrymu fod y rhai sydd wedi cynhyrchu gwaith ar gyfer y gystadleuaeth celf a chrefft yn cadw'r gwaith gan y bydd yn bosib y bydd yr un themau yn cael ei defnyddio yn yr eisteddfod y flwyddyn nesaf. Hoffwn ddiolch iddyn nhw gyd am yr ymroddiad y maent wedi ei ddangos yn ystod y paratoadau ac wrth gystadlu ar lefel cylch.*
I'm sure that many of you will already have heard about the Urdd's decision o cancel the National Eisteddfod. The eisteddfod will now be held in Denbigh in 2021. It is very disappointing for us as a school, for the pupils and staff who have already spent hours and weeks in preparing for the event since September. These include stage events as well as art and craft work. I would advise those who have produced art and craft work to keep hold of any work produced, as it may be possible that the same themes and topics will be used in next year's eisteddfod. I would like to thank them for the commitment they have already shown in preparing for the various events and when competing on regional level.

Gwasanaeth Cerdd / Music Service*- O ganlyniad i'r sefyllfa bresennol yn ymwneud a'r 'coronafirws', mae Gwasanaeth Cerdd Cyd-weithredol Wrecsam wedi ein hysbysu na fydd ymweliadau pellach i'r ysgol dros yr wythnosau nesaf gan staff y gwasanaeth cerdd ar gyfer gwersi offerynnol. Byddwn yn eich hysbysu pan fydd y gwersi yn ail-gychwyn.*
Due to the current situation regarding the 'coronavirus', the Wrexham Co-operative Music Service have informed schools that there will be no further visits to school over the following weeks for musical instrument lessons. We will be notifying you when the lessons will be commencing.

Schoop – *Os nad ydych wedi gwneud yn barod, a fyddech cystal a sicrhau eich bod wedi cofrestru gyda system Schoop. Mae'n cael ei ddefnyddio gan yr ysgol i gyfathrebu gyda rhieni a gofalwyr. Mae hwn am ddim! Dilynwch y cyfarfwyddiadau sydd ar y daflen wybodaeth.*
Please ensure that you have registered with the Schoop. It is used by the school to communicate with parents and carers. It is a free App! To register please follow the guidance on the attached form .

Diolch am eich cydweithrediad yn ystod y cyfnod anodd a heriol hwn. *O ran yr ysgol rydym yn dilyn canllawiau'r Llywodraeth, gan wneud pob ymdrech i geisio parhau gyda'r amserlen ysgol arferol i'r disgyblion, ac yn gwneud pob ymdrech i geisio osgoi unrhyw bryder di-angen ymysg y disgyblion. Byddwn yn eich hysbysu o unrhyw ddatblygiadau arwyddocaol ychwanegol o ran yr ysgol, pan fydd gwybodaeth yn cael ei dderbyn.*
Thank you for your co-operation during this difficult and challenging time. As a school we are following Government guidelines and advice, and are making every effort to continue with the normal timetable for the pupils, to avoid any unnecessary worrying for the children. We will be notifying you of any additional significant developments as far as school is concerned, when it is received.
Yn ddiffuant/Yours sincerely,

Mr Rhodri Jones
Pennaeth / Headteacher